

## Disgrifiad Rôl Aelod Etholedig

### **1 Atebolrwydd**

- I etholwyr eu rhanbarth etholaethol
- I'r Cyngor llawn
- I'r aelodau hynny sy'n aelodau dros grŵp gwleidyddol: I'w grŵp hwy.

### **2 Pwrpas a Gweithgaredd y Rôl**

#### **▪ Cynrychioli a Chefnogi Cymunedau**

- Cynrychioli buddiannau'r ward
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, gan ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan, a gwasanaethu pawb yn deg ac yn gyfartal
- Bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor Sir yn y ward a'r cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli
- Bod yn sianel cyfathrebu i'r gymuned ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor
- Cysylltu ag Aelodau'r Cabinet, Aelodau Cyngor eraill, Swyddogion Cyngor a sefydliadau partner er mwyn adnabod, deall a chefnogi anghenion cymunedau lleol
- Hybu goddefgarwch a chydlynid mewn cymunedau lleol

#### **▪ Gwneud Penderfyniadau a Goruchwylio Perfformiad y Cyngor**

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Cyngor llawn, cyrraedd a gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, a goruchwylio perfformiad
- Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniad gwybodus a chytbwys ar bwyllgorau a phanelau y gallant fod wedi eu penodi
- Glynu wrth egwyddorion democrataidd a chyfrifoldeb cyfunol wrth wneud penderfyniad
- Hybu a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

#### **▪ Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)**

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol lleol fel person penodedig y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth leol, hybu lles cyffredinol a chydweithrediad er budd y ddwy ochr
- Cynrychioli a bod yn eiriolwr i'r Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

#### **▪ Aelodau a benodwyd i bwyllgorau cynllunio neu drwyddedu**

- Dylent ymgymryd â hyfforddiant addas i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl yn briodol.

- **Trefn Lywodraethol Fewnol, Safonau Moesegol a Pherthnasau**
  - Hybu a chefnogi trefn lywodraeth dda'r Cyngor a'i faterion
  - Hybu arweinyddiaeth ddinesig a dinasyddiaeth weithredol
  - Hybu a chefnogi llywodraeth dryloyw ac agored
  - Cefnogi, a glynu wrth berthnasau effeithiol, priodol a boneddigaidd a chyflogai'r Cyngor
  - Glynu wrth God Ymddygiad Aelod, Protocol Swyddog/Aelod a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn gweinyddiaeth gyhoeddus
  
- **Deall a bod yn ymrwymedig i:**
  - Werthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
  - Wella ansawdd cymdeithas, economi ac amgylchedd Sir Ddinbych yn awr ac yn y dyfodol.

### **3 Gwerthoedd**

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn gweinyddiaeth gyhoeddus:
  - ◆ Balchder
  - ◆ Gonestrwydd
  - ◆ Parch
  - ◆ Undod

## Manyleb Person Aelod Etholedig

Cyflawni ei rôl ef/hi fel yr amlinellir yn y disgrifiad rôl, mae aelod effeithiol yn debygol o arddangos y canlynol:

- **Cynrychioli a Chefnogi Pwyllgorau**
  - Sgiliau eiriolaeth
  - Sgiliau rhyngpersonol
  - Gonestrwydd a'r gallu i osod naill du barnau ei hun a gweithredu'n ddiuedd
  - Y gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol
  - Sgiliau Cyfathrebu
- **Gwneud Penderfyniadau a Goruchwylio Perfformiad y Cyngor**
  - Gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythur cyfarfod
  - Dealltwriaeth cyd-destun gwasanaeth a strategol ar gyfer penderfyniadau
  - Y gallu i herio syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygiad polisi
- **Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)**
  - Sgiliau siarad cyhoeddus
  - Sgiliau cyflwyno
  - Y gallu i ddarbwylo eraill a gweithredu â gonestrwydd
- **Aelodau sydd wedi eu penodi ar bwyllgorau cynllunio neu drwyddedu**
  - Dylent ymgymryd â hyfforddiant addas i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl yn briodol.
- **Trefn Lywodraeth Fewnol, Safonau Moesegol a Pherthnasau**
  - Dealltwriaeth o rolau swyddogion, Aelodau ac asiantaethau gwahanol
  - Dangos parch at, a'r awydd i gyd-weithio â, gwahanol grwpiau ac unigolion
  - Bod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad a Phrotocol Swyddog/Aelod
  - Gwybodaeth ac ymrwymiad i Werthoedd Cyngor Sir Ddinbych